# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-11-06(p4)

**Dyddiad:** Dydd Iau 6 Gorffennaf 2006
**Amser:** 9.30am tan 12.30pm
**Lleoliad:** Canolfan Adnoddau a Gwybodaeth White Rose, Tredegar Newydd

## Teitl: Rhaglen Waith Ddraft ar Gyfer Tymor Yr Hydref 2006

### Diben

Gwahodd y Pwyllgor i roi sylwadau ar raglen waith arfaethedig tymor yr hydref 2006 (Atodiad 1) a nodi'r papur materion ar yr adolygiad polisi – Camddefnyddio Sylweddau: Atal Camddefnydd (Atodiad 2).

### Cefndir

Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc gynnal rhaglen waith dreigl dros gyfnodau o ddeuddeng mis o leiaf. Lluniwyd y rhaglen ar awgrymiadau gan yr Aelodau, pwyntiau gweithredu ac eitemau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau wedi llunio papur materion ar yr adolygiad polisi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am gynnydd yr adolygiad a'r cynigion ar gyfer y ffordd ymlaen i gwblhau'r broses o gasglu tystiolaeth o fewn yr amserlenni a nodwyd yn y flaenraglen waith ddrafft. Yn ystod toriad yr haf, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn llunio rhestr o'r sefydliadau a fydd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor i roi tystiolaeth a hefyd unrhyw ymweliadau y bydd Aelodau am eu trefnu.

### Trafodaeth

Fel y gwyddoch, pleidleisiodd y Cyfarfod Llawn dros dderbyn y strwythur diwygiedig sef bod y pwyllgorau'n cyfarfod bob pythefnos heb slotiau ychwanegol o fis Ionawr 2006. Rydym wedi darparu'r rhaglen ddrafft ar y sail y bydd y Gweinidog yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig yn ystod pob yn ail gyfarfod ynghyd â dod ag unrhyw bapurau'r Llywodraeth yn ôl ei dymuniad, ac rydym wedi amserlennu gwaith adolygu polisi a chyflwyniadau ar gyfer y cyfarfodydd eraill.

Mae'r rhaglen ddrafft yn cynnwys digon o le ar gyfer cyflwyniadau gan sefydliadau y mynegodd Aelodau ddiddordeb ynddynt ac ystyriwyd angen y Gweinidog am hysbysu, ymgynghori a derbyn barn y Pwyllgor ar rai pynciau.

Dywedodd y Cadeirydd y bydd y Pwyllgor yn cyfarfod y tu allan i Fae Caerdydd y tymor hwn ac y caiff ei gynnal ar 23 Tachwedd yn ardal Casnewydd.

Gwahoddir sylwadau gan y Pwyllgor ar y rhaglen waith ddrafft ar gyfer tymor yr hydref a gofynnir iddynt nodi unrhyw eitemau ychwanegol yr hoffent eu cynnwys.

Cylchredir copïau o’r Flaenraglen Waith gytûn i Gadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc yn unol â Rheol Sefydlog 9.9.

## Cam i’w gymryd

9. Cytuno ar y Flaenraglen Waith ar gyfer tymor yr hydref 2006 a nodi’r papur materion ar yr adolygiad polisi.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mehefin 2006**